

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad

Mehefin 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Uned Cydgysylltu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
Twitter: @CynulliadCymru
E-bost: SeneddPwyllgorBusnes@cynulliad.cymru

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

01.	Cyflwyniad.....	3
02.	Cylchoedd gwaith.....	4
	Modelau a ystyriwyd	4
	Pa mor eang yw'r cylchoedd gwaith?	5
	Gweithdrefnau a phenodiadau cyhoeddus	5
	Materion Ewropeaidd	6
03.	Sylwadau o'r tu allan i'r Cynulliad	6
04.	Cadeiryddion Pwyllgorau.....	6
	Atodiad A - Y Pwyllgorau a'u cylchoedd gwaith.....	7
	Y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth	7
	Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.....	7
	Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig	7
	Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu	7
	Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.....	7
	Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.....	7
	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.....	7
	Y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn	7
	Pwyllgorau arbenigol	8
	Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.....	8
	Y Pwyllgor Deisebau	8
	Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog	8
	Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad	8
	Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.....	8
	Y Pwyllgor Cyllid.....	8
	Atodiad B - Ymateb i argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau'r Pedwerydd	
	Cynulliad.....	9
	Y Pwyllgor Busnes.....	9
	Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol	10
	Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.....	10
	Atodiad C - Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau.....	11

01. Cyflwyniad

Ar 21 Mehefin 2016 cytunwyd i gynnig enwau a chylchoedd gwaith pwyllgorau i'r Cynulliad er mwyn cytuno arnynt yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad A.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut rydym wedi datblygu ein cynnig ar gyfer strwythur y pwyllgorau a sut rydym wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion etifeddiaeth a nodwyd gan bwyllgorau yn y Cynulliad diwethaf. Rhoddir ymateb yn Atodiad B i bob un o'r argymhellion a wnaed mewn cysylltiad â'r pwyllgorau.

I grynhoi, mae gennym system sy'n canolbwyntio ar chwe phwyllgor polisi a deddfwriaeth cyfun a nifer o bwyllgorau arbenigol i gyflawni swyddogaethau'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r system hon yn cwmpasu holl gyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r holl feysydd cymhwysedd deddfwriaethol sydd wedi'u datganoli. Rydym wedi mynd i'r afael â phroblemau a gafwyd yn y gorffennol ynglŷn â chylchoedd gwaith er mwyn rhannu'r gwaith yn fwy cytbwys ac er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar bolisi yn cael y sylw sydd ei angen. Rydym hefyd wedi cynnwys pwyllgor wrth gefn yn y strwythur am y tro cyntaf fel y gallwn ymateb yn gyflym i faterion newydd ac adegau prysur yn y rhaglen deddfwriaethol.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ymestyn yr amser sydd ar gael i bwyllgorau drwy wneud prynhawn dydd Llun yn rhan ffurfiol o'r amserlen busnes.

Mae nifer yr aelodau yn y pwyllgorau craidd wedi cael ei leihau er mwyn darparu ar gyfer creu pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol.

Mae'r ffactorau hyn, gyda'i gilydd, yn rhoi strwythur sy'n darparu sail gadarn ar gyfer cyflawni gweledigaeth Comisiwn y Cynulliad i sicrhau pwyllgorau o'r radd flaenaf:

Dylai pwyllgorau'r Cynulliad wella yn amlwg ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant y Llywodraeth i'r gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.

O ganlyniad bydd pwyllgorau'r Cynulliad:

i. yn cytuno ar gynllun clir, strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau;

ii. yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt;

iii. yn cael eu harwain gan gadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodir ar eu cyfer gan y Cynulliad;

iv. yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu dadansoddiad a gwerth eu gwelliant deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrandao arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi ffurfio ei chynlluniau o ran polisi, gwariant a deddfwriaeth;

v. yn craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolio yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau;

vi. yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw hyd braich ac yn cadw'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol;

vii. ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt;

viii. yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, yn cael eu hystyried yn chwaraewyr pwysig, dylanwadol gan grwpiau o randdeiliaid ac yn lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da cyhoeddus y Cynulliad. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang ag y bo modd;

ix. yn sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad; a

x. yn gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad.

02. Cylchoedd gwaith

Fel y soniwyd uchod, rhestrir enwau'r pwyllgorau a'u cylchoedd gwaith yn Atodiad A.

Modelau a ystyriwyd

Rhodddwyd ystyriaeth i fersiynau o'r system bwyllgorau a oedd yn cyfuno'r gwaith o graffu ar bolisi a deddfwriaeth o fewn cylch gorchwyl pwyllgorau sengl, ac ystyriwyd hefyd y syniad o wahanu'r gwaith craffu ar bolisi a'r gwaith craffu deddfwriaethol.

Ystyriwyd hefyd yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor a'n rhagflaenodd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad i gadw'r pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun.

Un o fanteision y model cyfun yw ei fod yn caniatáu i aelodau ddatblygu arbenigedd yn y maes polisi a rhoi hwn ar waith yn y broses o graffu ar deddfwriaeth. Mae hefyd yn caniatáu i ystod gyflawn y dulliau cyflawni polisi gael ei hystyried o fewn un pwyllgor. Yr anfantais allweddol yw na all y pwyllgor wneud cymaint o waith craffu ar bolisi os bydd llawer iawn o deddfwriaeth o fewn ei gylch gwaith.

O safbwynt ymarferol, ar ôl modelu'r ddau ddewis, gallem weld y byddai goblygiadau ymarferol i wahanu pwyllgorau polisi a deddfwriaeth, o ran nifer y lleoedd y byddai angen eu llenwi ar y pwyllgorau er mwyn darparu model o'r fath.

Yn y pen draw, cawsom ein hargyhoeddi o rinweddau cynhenid model y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfun, ac o'r ffaith bod y rhinweddau hyn yn mwy na gwneud iawn am yr anfantaision posibl.

Fodd bynnag, roeddem yn parhau i fod yn bryderus y gallai cyfnodau lle mae'r llwyth gwaith deddfwriaethol yn drwm gael effaith anghymesur ar allu rhai pwyllgorau i gynnal rhaglen o graffu ar bolisi.

I fynd i'r afael â'r pryder hwn, rydym wedi cymryd tri cham:

- Sefydlu chwe phwyllgor polisi a deddfwriaeth (un yn fwy nag yn y Cynulliad diwethaf) i ddarparu capasiti ychwanegol ac i ddsbarthu'r llwyth gwaith deddfwriaethol yn well;
- Sefydlu pwyllgor wrth gefn a all leddfu'r pwysau ar bwyllgor y mae ei lwyth gwaith yn drwm am gyfnod; a
- Sicrhau bod yr amserlen yn cynnwys amser heb ei ddyrannu ar gyfer y pwyllgorau.

Rydym hefyd yn cydnabod mai ni, y Pwyllgor Busnes, sy'n neilltuo deddfwriaeth i fod yn rhan o gylch gwaith pwyllgorau penodol, a bod gennym gyfrifoldeb i sicrhau y gwneir hyn mewn ffordd gytbwys. Pe byddai pwyllgorau'n bryderus bod deddfwriaeth yn amharu ar eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau craffu ehangach, dylent godi hyn gyda ni drwy ysgrifennu at y Llywydd.

Yn ogystal, mae gan Gadeiryddion pwyllgorau rywfaint o reolaeth dros yr amserlenni ar gyfer ystyried Biliau yn ystod Cyfnod 2 o fewn y terfynau amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ac felly y mae, i raddau, o fewn eu gallu i reoli eu rhaglenni gwaith yn unol â hynny.

Pa mor eang yw'r cylchoedd gwaith?

Mae'n bwysig deall nad yw cylchoedd gwaith y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth wedi'u rhagnodi na'u cyfyngu'n gaeth. Rydym yn fwriadol wedi caniatáu iddynt aros yn eang a phenderfynwyd peidio â darparu rhestr o bynciau ynghlwm wrth bob pwyllgor. Fel yn y Cynulliad diwethaf, rydym yn credu bod modd sicrhau gwell gwaith craffu ac osgoi'r perygl o ddull gwaith rhy gul trwy roi'r gallu i bwyllgorau fynd ar drywydd materion ar draws portffolios a meysydd pwnc.

Er enghraifft, gallai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ill dau ystyried addysg cyfrwng Cymraeg o'u safbwyntiau penodol eu hunain, a gallai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ill dau ystyried materion yn ymwneud ag ynni.

Fel yn y Cynulliad diwethaf, rydym yn disgwyl i Gadeiryddion a'u clercod gyfathrebu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod rhaglenni gwaith yn cyd-fynd â'i gilydd. Os bydd anghydfod, er bod hynny'n annhebygol, gall y Pwyllgor Busnes ei ddatrys drwy arfer Rheol Sefydlog 17.2 neu, in extremis, 16.3.

Mae cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau arbenigol - Cyllid, Cyfrifon Cyhoeddus, Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Deisebau, Safonau a Chraffu ar Waith y Prif Weinidog - yn aros yr un fath ag yn y Cynulliad diwethaf. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd orau o gyflawni swyddogaethau'r 'pwyllgor cyfrifol' yn y Rheolau Sefydlog a daethpwyd i'r casgliad bod y trefniadau yn y Cynulliad blaenorol wedi gweithio'n dda ac nad oedd unrhyw reswm i newid y trefniadau hyn ar hyn o bryd.

Gweithdrefnau a phenodiadau cyhoeddus

Rydym wedi ystyried **gweithdrefnau a phenodiadau cyhoeddus** ac a ellid cyfuno'r rhain â chylch gwaith pwyllgor safonau. Daethom i'r casgliad y byddwn ni'n parhau i fod yn gyfrifol am ystyried materion gweithdrefnol, ond rydym yn cydnabod y dylai hyn ddod yn fwy tryloyw. Rydym yn bwriadu ystyried materion gweithdrefnol yn gyhoeddus.

Rydym yn mynd i edrych eto ar **benodiadau cyhoeddus** ac a oes achos o blaid ffurfioli rôl y Cynulliad o ran craffu ar benodiadau cyhoeddus allweddol.

Am y tro, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cadw cyfrifoldeb am oruchwyllo'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru ac amcangyfrifon yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gyfrifol am oruchwyllo'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n gyfrifol am

oruchwylio gwaith y Comisiynydd Plant. Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn gyfrifol am oruchwylio gwaith Comisiynydd y Gymraeg.

Mae penodiadau cyhoeddus eraill y bydd pwyllgorau unigol yn dymuno ystyried craffu arnynt e.e. penodiadau gan Weinidogion i fyrddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Gellir bwrw ymlaen â hyn yn ôl disgrisiwn y pwyllgorau dan sylw.

Materion Ewropeaidd

Nodwn argymhelliad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ynghylch sefydlu pwyllgor i ystyried materion Ewropeaidd. Byddwn yn ailystyried y mater yng ngoleuni canlyniad y Refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd.

03.Sylwadau o'r tu allan i'r Cynulliad

Daeth gohebiaeth i law gan Gyfarwyddwr Prifysgolion Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, a rhoddwyd ystyriaeth i'w safbwyntiau yn ein trafodaethau.

04.Cadeiryddion Pwyllgorau

Yn dilyn argymhelliad cryf gan Fforwm y Cadeiryddion yn y Pedwerydd Cynulliad, rydym wedi cynnig trefn newydd ar gyfer ethol cadeiryddion drwy bleidlais gudd. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn ein hadroddiad ar Newidiadau i Reol Sefydlog 17 a osodwyd gerbron y Cynulliad.

Yn ogystal â hynny rydym yn cymeradwyo cyfrifoldebau'r cadeiryddion a bennwyd yn y Pedwerydd Cynulliad ac atgynhychir y rhain yn Atodiad C.

Atodiad A - Y Pwyllgorau a'u cylchoedd gwaith

Y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): newid yn yr hinsawdd; ynni; rheoli cyfoeth naturiol; cynllunio; lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafndiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tldi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

Y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn

Ystyried unrhyw fater a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Pwyllgorau arbenigol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

Y Pwyllgor Deisebau

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 23.

Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Craffu ar y Prif Weinidog o safbwynt unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 22.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cyflawni'r swyddogaethau fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 a 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

Atodiad B - Ymateb i argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad

Y Pwyllgor Busnes

Gwnaeth Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad nifer o argymhellion, yn ei adroddiad etifeddiaeth, sy'n ymwneud â sefydlu pwyllgorau.

Nodir yr argymhellion a'r ymatebion isod.

Argymhelliad 6 Mae'r Pwyllgor Busnes yn cefnogi canfyddiad Fforwm y Cadeiryddion y byddai 'lleihau maint y pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad yn cynyddu gallu Aelodau'n sylweddol o ran cyflawni eu dyletswyddau a byddai'n arwain at welliannau cynaliadwy yn ansawdd y gwaith craffu' ac yn argymhell y dylai pwyllgorau'r Pumed Cynulliad fod mor fach â phosibl o safbwynt gweithdrefnol a gwleidyddol.

Mae hyn wedi bod yn ystyriaeth allweddol inni wrth benderfynu ar strwythur y pwyllgorau ac rydym wedi lleihau maint y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cymaint ag sy'n ymarferol ac yn wleidyddol bosibl yn ein barn ni.

Argymhelliad 7 Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried adolygu rhai o weithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â'r pwyllgorau yng ngoleuni elfennau ymarferol y Cynulliad ar ôl yr etholiad, gan gynnwys y posibilrwydd o roi'r hawl awtomatig i Aelodau grwpiau heb gynrychioliaeth ar bwyllgor gael bod yn bresennol mewn cyfarfodydd.

Ni fu angen gwneud hyn oherwydd cyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad.

Argymhelliad 8 Dylid cadw strwythur craidd presennol y cydbwyllgorau polisi a deddfwriaeth.

Cadwyd strwythur craidd presennol y cydbwyllgorau polisi a deddfwriaeth.

Argymhelliad 9 Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried a ddylid sefydlu pwyllgor penodedig i ystyried Biliau Aelodau, a / neu ddefnyddio pwyllgorau deddfwriaeth ad hoc lle byddai hyn yn helpu i leddfu pwysau ar bwyllgor.

Rydym wedi ystyried yr argymhelliad hwn ac wedi penderfynu argymhell y dylid sefydlu pwyllgor wrth gefn sy'n ymateb iddo i ryw raddau.

Argymhelliad 10 Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad 'Deddfu yng Nghymru', rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Busnes newydd, wrth drafod y strwythur pwyllgorau sydd i'w fabwysiadu yn y Pumed Cynulliad:

- yn ystyried amryw opsiynau gan nodi manteision ac anfanteision pob un;
- yn ystyried profiadau ymarferol pwyllgorau'r Cynulliad;
- yn cyhoeddi adroddiad am ei drafodaethau gan gynnwys ei argymhelliad terfynol.

Rydym wedi dilyn yr argymhelliad hwn ac wedi cyhoeddi adroddiad am ein trafodaethau. Gellir ystyried mai'r cynigion i sefydlu pwyllgorau yw ein hargymhellion terfynol.

Argymhelliad 11 Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd sicrhau bod ei benderfyniadau ar strwythur, maint, cylch gorchwyl, cadeiryddion ac amserlennu'r pwyllgorau yn helpu i gyflawni gweledigaeth y Comisiwn.

Credwn fod y strwythur a gynigir yn darparu sail gadarn ar gyfer cyflawni gweledigaeth Comisiwn y Cynulliad i sicrhau pwyllgorau o'r radd flaenaf.

Argymhelliad 12 Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried a ddylid mabwysiadu gweithdrefn wahanol ar gyfer ethol cadeiryddion pwyllgorau ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Rydym wedi ystyried hyn ac wedi gwneud argymhellion i'r Cynulliad i ddiwygio Rheol Sefydlog 17.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Yn ychwanegol at yr argymhelliad yn ei adroddiad 'Deddfu yng Nghymru', gwnaeth y pwyllgor hwn ddau argymhelliad arall mewn perthynas â materion Ewropeaidd:

Argymhelliad 12 Os bydd y DU yn pleidleisio o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd, rydym o'r farn y dylid sefydlu pwyllgor bach a fydd yn gyfrifol am oruchwylio materion Ewropeaidd o ran y Cynulliad ac a fydd yn chwarae rôl 'llysgennad'.

Argymhelliad 13 Os bydd y DU yn pleidleisio dros adael yr Undeb Ewropeaidd, credwn y byddai o fudd sylweddol pe bai'r Cynulliad yn sefydlu pwyllgor penodedig i archwilio i oblygiadau hyn o ran Cymru, gan gynnwys y materion cyfreithiol a gweinyddol manwl sydd ynghlwm wrth adael yr UE.

Byddwn yn ailystyried yr argymhellion hyn pan fydd canlyniad y refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn hysbys. Am y tro, mae materion Ewropeaidd yn rhan o'r 'brif ffrwd' gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn parhau i chwarae rhan o safbwynt ystyried sybsidiaredd a materion trawsbynciol.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Y cyfryngau a chyfathrebu

Credwn y dylai'r Pumed Cynulliad sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu i gryfhau'r trefniadau atebolrwydd rhwng y Cynulliad a'r cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae pwyllgor wedi cael ei sefydlu sydd â chyfathrebu, darlledu a'r cyfryngau yn rhan o'i gylch gwaith.

Atodiad C - Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau

- Pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisiau a chyllid;
- sicrhau bod y pwyllgor mor berthnasol a dylanwadol ag y bo modd, gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor;
- ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisiau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;
- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor a meithrin consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd;
- datblygu'r diwylliant yn y pwyllgor ac amrywiaeth y sgiliau sy'n angenrheidiol i'w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;
- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;
- sbarduno pob agwedd ar waith y pwyllgor gan sicrhau y caiff ei gyflawni'n gyflym ac i safon uchel;
- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad; a
- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesedd yn ei weithrediad er mwyn cynyddu ei effaith, a sicrhau ei fod yn fwy effeithiol ac yn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd.